

Cyngor Cymuned Llansantffraed

Adroddiad Blynyddol Mai 2022-Ebrill 2023

Adolygiad y Cadeirydd o'r Flwyddyn yng Nghyfarfod Blynyddol 2023 a gynhaliwyd ar 2 Mai 2023

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bob Cyngorydd am eu cefnogaeth a'r cyfraniadau y maent wedi'u gwneud yn unigol ac ar y cyd drwy gydol y flwyddyn.

Roeddem yn falch iawn o groesawu dau Gyngorydd newydd - Jim a Martine, sydd wedi dod â meysydd arbenigedd gyda nhw a fydd yn gwella'r Cyngor Cymuned.

Hoffwn sôn am Andrew sydd wedi gwasanaethu fel Is-gadeirydd, mae'r ystod o brosiectau y mae wedi bod yn rhan ohonynt yn ystod y flwyddyn yn brawf o'i ymrwymiad i'r rôl. Mae wedi bod yn bleser gweithio gydag ef.

Felly, beth sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf? Mae wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Cyngor Cymuned a dyma ychydig o'r materion rydym wedi bod yn rhan ohonynt:

- Dod o hyd i gartref parhaol i'r Cyngor Cymuned.
- Materion amrywiol yn deillio o'r estyniadau i'r ystadau tai yng Nghylch Peris a Stad Craig Ddu.
- Gwaith a gwblhawyd ar ddiweddarau'r llochesi fysiau sydd wedi'u lleoli yng Nghylch Peris ac adleoli un ohonynt.
- hysbysfwrdd newydd yn Nghylch Peris.
- Gweithio gydag Ysgol Llan-non ar brosiectau gan gynnwys y gystadleuaeth i ddylunio'r cyfleuster cyfnewid llyfrau newydd bydd wedi'i lleoli yn yr hen giosg ffôn. Ar gyfer y prosiect nesaf bydd y plant yn dylunio arwyddion 'croeso i Lanon'.
- Prynwyd a gosodwyd sawl mainc newydd ac mae rhaglen o adnewyddu meinciau yn ei lle.
- Llwybrau troed – contract torri tyfiant, monitro ac ati.
- Arwyddion baw cŵn wedi'u codi a bagiau wedi'u darparu.
- Gwelliannau a wnaed i sawl llwybr troed gan gynnwys arwyddion newydd ac arwynebau newydd wedi'u gosod.
- Rhoddwyd cymorth ariannol i nifer o sefydliadau lleol sydd o fudd i'n cymuned.
- Ariannu'r gweithgareddau haf llwyddiannus iawn i blant a ddarperir gan Ray Ceredigion
- Sesiynau hyfforddi diffibriliwr a chymorth cyntaf wedi'u hariannu.
- Prosiect ehangu maes chwarae ar y gweill. Diolch yn fawr i waith caled yr is-bwyllgor sydd wedi gwneud hyn yn bosib.
- Tynnu'r ffens yn y lôn wrth ymyl Gwesty'r Central, a diolch i'r sawl wnaeth hyn.
- Binau halen newydd yn cael eu darparu mewn sawl man.
- Prynwyd coeden Nadolig a goleuadau - diolch i'r rhai a gododd y goeden.
- Rydym wedi edrych ar ddarparu Mannau Cynnes ac mae hyn yn parhau.
- Banciau bwyd
- Ymweliadau gan Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu Charlotte Carter.
- Goruchwyliaeth cyflymder cymunedol.
- Cymerodd ein Cyngorydd Sir Keith Henson ei le pan ymunodd â'r Cyngor ac mae wedi delio â nifer o faterion - Y diwrnod y rhedodd y dref yn sych! Cwynion am

derfynau cyflymder, llinellau melyn, biniau sbwriel yn diflannu, gallwn fynd ymlaen! Rwy'n amau bod ei ffôn byth yn stopio canu. Mae pob ymholiad dw'i wedi anfon at Keith wedi ei ymdrin ag ef yn gyflym a gyda'r lefel uchaf o broffesiynoldeb, arbenigedd a chwarteisi - diolch Keith.

Dyna flas ar yr hyn yr ydym wedi bod yn rhan ohono yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rwy'n siŵr y bydd y flwyddyn nesaf yn dod â llawer o faterion diddorol eraill i'r Cyngor Cymuned.

Ac yn olaf, ond nid lleiaf o bell ffordd, hoffwn ddiolch i Clerc y Cyngor, Denfer. Rydym yn ffodus i gael rhywun sydd â'r arbenigedd gweinyddol a deddfwriaethol sy'n sicrhau ein bod ni fel cyngor cymuned yn cynnal ein busnes yn gywir. Mae'n darparu cyngor a chefnogaeth annibynnol, wrthrychol a proffesiynol bob tro, ac mae ei agwedd dawel a'i synnwyr digrifwch yn sicr wedi fy helpu yn fy rôl. Diolch yn fawr iawn i ti Denfer am eich cymorth a'ch cefnogaeth yn ystod fy mlwyddyn yn y swydd.

Gyda hynny o eiriau, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno pob llwyddiant i'r Cadeirydd a'r pwyllgor yn y flwyddyn i ddod.

Sheila Davies

Trefniadaeth y Cyngor

Cyngor Cymuned Llansantffraed yw haen fwyaf lleol llywodraeth leol ar gyfer cymuned Llansantffraed ac mae'n awdurdod lleol a sefydlwyd trwy Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Cyngor yn cynnwys deg Aelod etholedig.

Yr Aelodau yn ystod y flwyddyn bwrdeistrefol 2022-23 oedd y canlynol:

Y Cyngorwyr Sheila Davies, Keith Henson, Hywel Llŷr Jenkins, Lodwick Lloyd, Dennis Morgan, Andrew Phillips, Gwenno Piette ac Aled Roberts (etholwyd yn ddiwrthwynebiad ym Mai 2022).

Y Cyngorwyr Martine Robson a Jim Rollinson (cyfetholwyd yn dilyn yr etholiad).

Mae'r Cyngor yn cyflogi Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol rhan amser, Mr Denfer Morgan, sydd yn gyfrifol am weinyddiaeth y Cyngor, gan gynnwys y cyllid.

Fe fu i'r Cyngor gwrdd am 7:30yh ar nos Fawrth cyntaf y mis mewn lleoliadau amrywiol. Fe fu'n weithgar iawn yn chwilio am leoliadau ble y gellid cwrdd gyda gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ble y gellir mynychu cyfarfodydd drwy fod yn bresennol neu o bell.

Gellir cysylltu gyda'r Cyngor drwy gysylltu â'r Clerc trwy anfon e-bost at clerc.llansantffraed@btinternet.com neu drwy ffonio 07749 320915.

Gwefan y Cyngor yw [Hafan / Home - Llansantffraed Community Council](#)

Mae'r gwybodaeth a ddarperir ar y wefan yn cynnwys:

- Manylion cyswllt
- Manylion y Cynghorwyr
- Calendr cyfarfodydd ac agenda a chofnodion
- Gwybodaeth ariannol
- Polisiâu

Tir Hamdden a Mwynder

Mae'r Cyngor yn berchen ar dri darn o dir ym mhentrefi Llanon a Llansantffraed a ddarperir at bwrpasau mwyniant a hamdden, sef:

- Y llain a'r gysgodfa yn Llansantffraed
- Lle chwarae'r plant yn Llansantffraed
- Y cwrt tenis a'r man chwarae aml-ddefnydd ar y Waun, Llanon

Gwasanaethau

Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cynnwys:

- cadw llwybrau troed yn glir drwy drasho cyson gan gcontractwr
- cyfrannu tuag at gost torri porfa ar y cae chwarae
- darparu sesiynau chwarae gan Ray Ceredigion i blant yn ystod gwyliau'r haf
- gwneud cyfraniadau ariannol i gyrff lleol a Neuadd Bentref Llanon

Cloncan

Y mae'r Cyngor yn cynhyrchu cylchlythyr cymunedol o'r enw Cloncan sy'n cael ei olygu gan y Cynghorwyr Sheila Davies a Gwenno Piette.

Cyllid

Mae'r Cyngor yn gosod Cyllideb Blyneddol ym mis Ionawr sy'n amlinellu'r gwariant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol ar gyfer y gwasanaethau y bwriedir eu darparu a'r prosiectau y bwriedir eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Ariennir y gwariant yma yn ei dro drwy braesept a osodir yn yr un cyfarfod. Mae'r praesept yn ei dro yn rhan o Dreth y Cyngor a delir gan bob annedd o fewn y Gymuned. Defnyddir ffynonellau incwm eraill ynghyd ag arian wrth gefn.

Dyma gyllideb y Cyngor am 2022-23, a osodwyd yn y cyfarfod ar 4ydd Ionawr 2022:

Gwariant

£31,000

Incwm

Praesept: £17,000

Ad-daliad TAW: £3,500
Grant Cymunedol: £7,500
Arian wrth-gefn: £3,000

Treth Gyngor

Cymeradwy-wyd Treth Gyngor o £30.07 ar gyfer eiddo Band D er mwyn creu'r Praesept.

Cyfrifon Blynyddol

Y Cyfrifon Blynyddol diweddaraf i'w harchwilio gan Archwilio Cymru yw'r rhai ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol - 2021-22. Derbyniodd y Cyngor 'adroddiad diamod' heb faterion i'w nodi.

Gellir gweld manylion pellach ar wefan y Cyngor.

Materion Cymunedol

Cynrychioli'r Gymuned

Cyngor Sir Ceredigion yw'r awdurdod addysg leol, awdurdod priffyrdd lleol, awdurdod cynllunio lleol a hefyd yn gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol y Sir. Ymgynghorir y Cyngor gan Gyngor Sir Ceredigion ar ambell fater.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud cynrychiolaethau ar y canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Ceisiadau cynllunio
- Creu llwybrau troed a gwyriadau.

Denfer Morgan
Clerc y Cyngor
Hydref 2023